Ysgol Penrhyn-coch

Yn ystod y mis daeth llwyddiant i dîm pêl-droed a hoci'r ysgol. Enillodd y bechgyn y gystadleuaeth bêl-droed i ysgolion bach y cylch tra daeth y merched hwythau i'r brig yn yr hoci. Golyga hyn mai Penrhyn yw pencampwyr yr hoci, pêl rwyd, pêl droed a rygbi am eleni. Llongyfarchiadau cynnes i chwi oll.

Ddiwedd Mai aeth dosbarthiadau 3 a 4 i Ddydd Agored Trawscoed a threulio amser difyr a diddorol tu hwnt, gan fod yno gymaint o bethau i'w gweld. Diolch yn fawr i bawb am wneud yr ymweliad yn un cofiadwy iawn.

Aeth llond bws ohonom, yn rieni a phlant, i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghwm Gwendraeth ddiwedd Mai. Cymerodd bump ar hugain o'r plant ran yng nghystadleuaeth y gân actol a chael hwyl reit dda hefyd, er na ddaeth llwyddiant i'n rhan y tro hwn. Daliwch ati i'r dyfodol gan mai "Dyfal donc a dyrr y garreg." Braf hefyd oedd gweld enwau cyn-ddisgyblion yr ysgol wedi dod i'r brig yng nghystadlaethau crefft yr Eisteddfod ac eraill yn ymddangos mewn gwahanol bartïon ar lwyfan yr ŵyl.

Tro dosbarthiadau 1 a 2 oedd talu ymweliad â Theatr y Werin ar 7 Mehefin i weld perfformiad o "Postman Pat". Mwynhaodd y plant eu hunain yn fawr ac edrychant ymlaen yn awr i weld y sioe **Rwtsh Ratsh - Rala Rwdins** gan gwmni'r Arad Goch, eto yn y Theatr ar 30 Mehefin.